
# Manteisiwch i'r eithaf ar werth eich meddalwedd

## gyda'n hyfforddiant systemau

Beth bynnag yw maint eich gweithlu, ac ni waeth pa mor amrywiol yw eu hanghenion dysgu, rydym yn helpu sefydliadau i gyflawni'r canlyniadau hyfforddiant gorau ar gyfer cyflwyno a diweddaru systemau cymhleth.

Mae ein hyfforddiant systemau yn gyflym i'w gyflwyno, yn hawdd ei gofio, yn gost-effeithiol a gellir ei ddarparu yn y Gymraeg. Gyda'r ateb dysgu hwn, bydd eich sefydliad yn sicrhau llai o amhariad, llai o risg a gwell enillion ar fuddsoddiad o gymharu â dysgu mewn ystafell ddosbarth.



## Sut rydym yn gwneud hyn

Bydd hyfforddiant systemau Me Learning yn rhoi'r sgiliau angenrheidiol i'ch pobl yn effeithiol mewn amser byr o ran sut i ddefnyddio systemau hanfodol sy'n sbarduno llwyddiant a chynhyrchiant eich sefydliad.

Mae ein dull hyfforddi arloesol, sy'n defnyddio cymysgedd o dechnegau cydnabyddedig, yn ffordd ddelfrydol o roi'r sgiliau sydd eu hangen ar bobl, mewn unrhyw le ac ar unrhyw ddyfais.

## Pam mae cwsmeriaid yn ymddiried yn ein Hyfforddiant Systemau

**MAE'N EFFEITHLON**
Mae ein hyfforddiant systemau yn gwella'ch enillion ar fuddsoddiad gan ei fod hyd at 50% yn fwy cost-effeithiol na hyfforddiant wyneb yn wyneb safonol. Mae'r safonau uwch o hyfforddiant yn lleihau'r risg o brosesu gwybodaeth anghywir, gan wella ansawdd data.

**O'R DECHRAU I'R DIWEDD**
Mae ein hyfforddiant systemau yn ateb cyfannol sy'n lleihau amserlenni hyfforddiant drwy ofalu am y broses yn ei chyfanrwydd — o ddatblygu cynnwys hyd at ei ddarparu. Mae'r holl staff yn cael hyfforddiant cyson o ansawdd uchel, er mwyn iddynt gyrraedd cymhwysedd llawn yn gyflym.

**MAE'N EFFEITHIOL AC YN GYFLYM I'W GYFLWYNO**
Mae ein hyfforddiant systemau yn gwarantu canlyniad hyfforddiant cadarnhaol drwy atgyfnerthu gwybodaeth yn rheolaidd, a chymorth parhaus 24/7 sy'n sicrhau cymhwysedd gweithwyr cyn mynd yn fyw, ar ôl mynd yn fwy ac yn ystod adegau busnes fel arfer. Gellir ei gyflwyno'n gyflym ac yn hawdd drwy ddefnyddio hyfforddiant ar-lein digidol a dysgu rhithwir.

# Y ganolfan wybodaeth

Yn ogystal â hyfforddiant, mae ein system yn cefnogi defnyddwyr drwy ddwyn ynghyd amrywiaeth o ddeunyddiau cymorth a hyfforddiant a'u gwneud yn hygyrch drwy lwyfan o'r enw'r Ganolfan Wybodaeth.

Mae'r cyfleuster cymorth hwn ar gael 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn, gan leihau nifer y galwadau i'r ddesg gymorth.

# Gwybodaeth am Me Learning

Rydym yn dîm ymroddedig o arbenigwyr hyfforddiant gyda hanes gref o greu dysgu sy'n datgloi potensial gweithlu. Ers 2006, rydym wedi darparu dysgu digidol i sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat.

**TRA ACHREDEDIG**

Mae ein hachrediad heb ei ail — Cyber Security Essentials Plus, ISO 27001 ac ISO 9001 —rydym yn gyfarwydd â gweithio gyda sefydliadau sy'n gofyn am y lefel uchaf o ddiogelwch data ar draws sectorau.

**HAWDD GWNEUD BUSNES GYDA NI**

Bydd ein tîm yn gweithio gyda chi i gyflawni'ch canlyniadau hyfforddiant, ac rydym yn rhan o nifer o fframweithiau'r sector cyhoeddus fel DOS, G-Cloud, ESPO, Bloom a NEPO.

**HANES BLAENOROL O DDYSGU GWYCH**

Rydym wedi helpu dros 800 o sefydliadau gyda'u dysgu ac rydym wedi rhoi hyfforddiant i 1,000,000 o ddysgwyr ar ein platfform.

**Doedd treulio sawl diwrnod yr wythnos yn darparu'r un hyfforddiant dro ar ôl tro ddim yn ddefnydd da o'n hamser. Mae'r adborth ar Me Learning wedi bod mor gadarnhaol fel nad ydym yn bwriadu dychwelyd i hyfforddiant yn yr ystafell ddosbarth ar gyfer dysgu hanfodion Access Mosaic. Mae defnyddio dysgu digidol o ansawdd uchel yn ffordd well o lawer o ddarparu hyfforddiant o'r math hwn.**

**Dadansoddwr Busnes Access Mosaic**
ym Mwrdeistref Llundain Waltham Forest

**Mae'r ateb Me Learning yn rhoi sail gadarn i'n proses sefydlu a'n proses ar gyfer defnyddwyr newydd ac mae wedi cael ei ddefnyddio am nifer o flynyddoedd.  Roedd y system yn amhrisiadwy yn ystod y pandemig ac mae wedi newid y ffordd yr ydym yn darparu hyfforddiant.  Mae'r ganolfan wybodaeth yn ychwanegiad gwych, mae'r porth gweinyddu yn ddi-dor ac mae staff Me Learning yn rhoi diweddariadau a chyngor rheolaidd i sicrhau ein bod yn defnyddio manteision yr offeryn gwych hwn**

**Arweinydd Tîm Ceisiadau**
Bwrdeistref Llundain Lambeth

## Cysylltwch â ni

Rydym yn barod i'ch helpu i ddiwallu eich anghenion o ran hyfforddiant systemau. Mae ein tîm yma ar gyfer eich ymholiadau a'ch cwestiynau.


01273 091 301

anne.clayton@melearning.co.uk

Me Learning Ltd
1st Floor, Europa House
Southwick Square, Southwick
Brighton, BN42 4FJ